

---

## PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 16-04-21

---

**Presenoldeb:** Cynghorydd Dafydd Meurig (Cadeirydd)  
Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is Gadeirydd)

Cynghorwyr: Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Peredur Jenkins, Eric M Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Peter Read, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a Gethin Glyn Williams

### Swyddogion:

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)  
Ms Sian Goodson (Cwmni GoodsonThomas)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anwen Hughes a'r Cynghorydd Simon Glyn

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

#### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

#### 4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19-03-21 fel rhai cywir

#### 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## 8. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PRIF WEITHREDWR

- a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.
- b) Gwahoddwyd Ms Siân Goodson o gwmni Goodson Thomas i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd yn y Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 29/03/21 drwy nodi canlyniadau'r profion seicometreg a chymwyseddau'r ymgeiswyr. Roedd copi o'r adroddiad wedi ei ddsbarthu i'r Aelodau.

Gwahoddwyd Mr Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd mewn cyfweiliad proffesiynol a gynhaliwyd 01/04/21 gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, 3 Aelod Cabinet a Chadeirydd y Fforwm Craffu. Roedd copi o'r adroddiad wedi ei ddsbarthu i'r Aelodau.

- c) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad ar *"Mae nhw'n dweud bod y 100 diwrnod cyntaf yn bwysig mewn taith unrhyw Arweinydd. Be fydddech chi yn ei wneud yn eich 100 diwrnod cyntaf a pham?"* Ymatebwyd i chwe chwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

- ch) Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Dafydd Gibbard.

**PENDERFYNWYD: Argymell i'r Cyngor Llawn (mewn cyfarfod arbennig a gynhelir 23/04/21), benodi Mr Dafydd Gibbard i'r swydd Prif Weithredwr**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 16:15pm